WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Gwasanaethau Nyrsio: Diweddariad ar Gynnydd – **Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda**

Blwyddyn yr archwiliad: 2017

Dyddiad cyhoeddi: Tachwedd 2018

Cyfeirnod y ddogfen: 603A2018-19

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a wnaed/i'w wneud yn unol â swyddogaethau statudol.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.
Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd parti perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Cwblhawyd y gwaith hwn gan Philip Jones ac Emily Owen.

# Cynnwys

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ysgrifennu manyleb glir ar gyfer ei wasanaeth nyrsio ardal ac mae ganddo well dealltwriaeth o'r galw, defnydd a pherfformiad, ond mae'n aros am ganllawiau cenedlaethol cyn y gellir mynd i'r afael â rhai materion yn llawn.


Adroddiad cryno

Cyflwyniad 4

Ein canfyddiadau 5

Argymhellion 6

Atodiadau

Atodiad 2 – cynnydd a wnaed gan y Bwrdd Iechyd ers ein hargymhellion yn 2014 7

Atodiad 1 – ymateb rheolwyr 19

# Adroddiad cryno

## Cyflwyniad

1 Fel rhan o raglen archwilio 2014, cynhaliodd yr Archwilydd Cyffredinol adolygiad o wasanaethau nyrsio ardal ym mhob un o'r saith bwrdd iechyd yng Nghymru. Roedd yr adolygiad yn ceisio ateb y cwestiwn 'A yw'r Bwrdd Iechyd yn cynllunio ac yn defnyddio ei adnoddau nyrsio ardal yn effeithiol fel rhan o'i ddull ehangach o ddarparu gofal yn y gymuned?'

2 Fe wnaethom adrodd ein canfyddiadau ar gyfer y Bwrdd Iechyd ym mis Rhagfyr 2014, a daethom i'r casgliad nad oedd strategaeth glir gan y Bwrdd ar gyfer ei wasanaeth nyrsio ardal, a bod cynllunio a darparu'n cael ei gymhlethu gan ddiffyg dealltwriaeth o'r galw, amrywiad anesboniadwy yn y defnydd a diffyg monitro ansawdd a pherfformiad yn systematig. Wrth ddod i'r casgliad hwn, fe welsom:

- nad oedd gan y Bwrdd Iechyd strategaeth glir na chynlluniau gweithredol ategol i gyflawni ei wasanaeth nyrsio ardal a bod angen trosolwg fwy cadarn ar lefel gorfforaethol er mwyn cyflawni amcanion y gwasanaeth;
- dealltwriaeth gyfyngedig o'r galw a chydymffurfiaeth wael ag arfarniad a hyfforddiant statudol a gorfodol yn ei gwneud yn anodd i'r Bwrdd Iechyd asesu a oedd niferoedd y gweithlu a'u sgiliau yn ddigonol i fodloni'r angen am y gwasanaeth;
- er bod gan staff nyrsio ardal fwy o rôl mewn cydlynu gwasanaethau i'r cleifion, mae'n aneglur a ydynt yn cael eu defnyddio'n effeithiol oherwydd gwahaniaeth anesboniadwy yn y ffordd y maent yn treulio'u hamser a dosbarthiad anwastad adnoddau; ac
- nad oedd y Bwrdd Iechyd yn gallu asesu, monitro ac adrodd ar berfformiad, ansawdd a diogelwch ei wasanaeth nyrsio ardal.

3 Fel rhan o'r Cynllun Archwilio ar gyfer 2017, mae'r Archwilydd wedi cynnwys gwaith lleol i olrhain cynnydd a wnaed gan y Bwrdd Iechyd o ran ymdrin â'r argymhellion a wnaed yn yr Adolygiad o Wasanaethau Nyrsio Ardal 2014. Dechreuodd yr adolygiad cynnydd hwn ym mis Hydref 2017 a gofynnodd y cwestiwn canlynol: **A yw'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd digonol mewn ymateb i'r canfyddiadau a'r argymhellion a wnaed yn yr adolygiad gwreiddiol?**

4 Wrth ymgymryd â'r diweddariad cynnydd hwn, fe wnaethom ni:

- anfon hunanasesiad at y Bwrdd Iechyd, a chafodd ei gwblhau a'i ddychwelyd atom ni;
- adolygu nifer o ddogfennau gan gynnwys y rhai a oedd wedi cael eu hatodi at yr hunanasesiad; a
- chyfweld â staff y Bwrdd Iechyd i drafod cynnydd, problemau presennol a heriau at y dyfodol.

5 Ceir crynodeb o'n canfyddiadau yn yr adran nesaf ac mae rhagor o fanylion ar gael yn Atodiad 1.

# Ein canfyddiadau

6 Ein canfyddiad cyffredinol yw bod y Bwrdd Iechyd wedi ysgrifennu manyleb glir ar gyfer ei wasanaeth nyrsio ardal a bod ganddo well dealltwriaeth o'r galw, defnydd a pherfformiad, ond mae'n aros am ganllawiau cenedlaethol cyn y gellir mynd i'r afael â rhai materion yn llawn.

7 I grynhoi, mae statws cynnydd yn erbyn pob un o'r argymhellion blaenorol yn cael ei amlinellu yn Arddangosyn 1.

Arddangosyn 1: statws argymhellion 2014

| Cyfanswm argymhellion | Wedi'u gweithredu | Ar waith | Heb eu cyflawni o fewn yr amserlen | Wedi'u disodli |
|---|---|---|---|---|
| 25 | 22 | 3 | 0 | 0 |

Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru

8 Daethom i'r casgliad bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd da yn erbyn pob un o'r argymhellion, ac wedi atgyfnerthu ei agwedd tuag at graffter, llwyth achosion a gweithlu wrth aros am ganllawiau cenedlaethol yn y meysydd hynny.

- Mae manyleb o wasanaethau nyrsio ardal wedi cael ei hamlinellu sy'n cynnwys protocolau cyfeirio, er bod angen i'r wybodaeth hon gael ei chadw'n gyfredol ac mae'n rhaid i unrhyw ffurflenni cyfeirio gael eu diweddaru gydag unrhyw newidiadau.
- Mae gwaith sylweddol wedi cael ei wneud i ail-lunio timoedd nyrsio ardal ac i sicrhau defnydd mwy effeithiol o staff.
- Mae ffurflen gyfeirio yn amlinellu'r wybodaeth sy'n ofynnol gan dimoedd nyrsio ardal i sicrhau bod cleifion yn derbyn gofal yn yr amgylchedd fwyaf addas.
- Mae system brysbennu ar gyfer cyfeiriadau cleifion wedi cael ei beilota yn llwyddiannus yn Sir Gaerfyrddin, ac mae un arall yn cael ei werthuso ar hyn o bryd yng Ngheredigion.
- Mae timoedd nyrsio ardal yn gwerthuso llwyth achosion clinigol unigol a llwyth achosion timoedd cyffredinol, wedi'u harwain yn rhannol gan gyhoeddiad y canllawiau interim yn ddiweddar.
- Mae gwybodaeth ynglŷn â pherfformiad ac ansawdd a materion diogelwch yn gwella a disgwylir adroddiad cyffredinol ar wasanaethau nyrsio ardal yn ddiweddarach eleni am y tro cyntaf.

9 Wrth gynnal y diweddariad cynnydd hwn, rydym ni hefyd wedi canfod un risg newydd mewn perthynas â gwasanaethau nyrsio ardal. Mae hwn yn cael ei amlinellu yn Arddangosyn 2.

Arddangosyn 2: risg newydd a nodwyd yn ystod ein gwaith archwilio

| **Risgiau newydd** | |
|---|---|
| **Maes** | **Disgrifiad** |
| Galw | Mae potensial i fanyleb y gwasanaeth ddyddio'n sydyn, ac i'r gwasanaeth nyrsio ardal gael ei orlwytho â gwaith, gan nad oes ganddo adnoddau digonol. Heblaw bod sylfaen glir ar gyfer gwneud penderfyniadau ynglŷn â'r hyn sy'n bosibl darparu a'r hyn nad yw'n bosibl ei ddarparu, gallai cleifion fod mewn perygl o ganlyniad i wasanaeth sy'n cael ei orlwytho. |

Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru

# Argymhellion

10 O ganlyniad i'r risg newydd a nodwyd, rydym ni wedi gwneud un argymhelliad newydd. Yn ogystal, mae angen i'r Bwrdd Iechyd barhau i wneud cynnydd wrth fynd i'r afael ag argymhellion sy'n dal i fod heb eu cwblhau. Mae'r argymhellion yma ynghyd â'r argymhellion newydd yn cael eu hamlinellu yn Arddangosyn 3.

Arddangosyn 3: argymhellion

| **Argymhellion 2014 sy'n dal heb eu cyflawni** | |
|---|---|
| **Strategaeth a chynllunio** | |
| **Adnoddau i fodloni galw** | |
| A3d | Ystyried yn rheolaidd a ydynt yn cydymffurfio â'r meini prawf a'r rhestr wirio gwybodaeth ac yn targedu'r rheiny sy'n cyfeirio'n amhriodol neu'n rhoi gwybodaeth wael. |
| **Cydweddu adnoddau â'r llwyth achosion** | |
| A6 | Mae llwyth gwaith yn amrywio rhwng timoedd. Dylai'r Bwrdd Iechyd ddefnyddio offeryn dibyniaeth Cymru gyfan pan fydd ar gael i fonitro ac adolygu'r cymysgedd achosion rhwng y timoedd o'i gymharu ag adnoddau'r tîm. |
| **Monitro a gwella gwasanaethau** | |
| A7b | Datblygu dull cynhwysfawr o adrodd ar y mesurau hyn i'r Bwrdd o leiaf unwaith y flwyddyn. |
| **Argymhellion newydd** | |
| A9 | Sicrhau bod y fanyleb ar gyfer gwasanaethau nyrsio ardal yn cael ei ddiweddaru'n ffurfiol o leiaf unwaith y flwyddyn, a bod unrhyw newidiadau i'r meini prawf cyfeirio'n cael eu hadlewyrchu mewn diweddariadau i'r ffurflen gyfeirio. |

Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru

# Atodiad 1

## Cynnydd a wnaed gan y Bwrdd Iechyd ers ein hargymhellion yn 2014

Arddangosyn 4: asesiad o'r cynnydd

| Argymhelliad | Dyddiad targed ar gyfer gweithredu | Statws | Crynodeb o'r cynnydd |
|---|---|---|---|
| **Strategaeth a chynllunio** | | | |
| A1 Mae angen diffinio rôl y gwasanaeth nyrsio ardal yn eglur. Gan dynnu ar ganfyddiadau'r archwiliad hwn, dylai'r Bwrdd Iechyd weithio gyda'r staff nyrsio ardal a rhanddeiliaid eraill i gytuno ar rôl a chyfrifoldebau'r gwasanaeth nyrsio ardal o fewn y ddarpariaeth ehangach o wasanaethau nyrsio cymunedol drwy: | | | |
| a. gytuno ar ymhle y darperir y gofal a diffinio 'yn gaeth i'r tŷ' fel bod cleifion yn cael eu trin yn y lleoliad gofal sydd fwyaf addas i'w hanghenion, a sicrhau effeithlonrwydd y gwasanaeth yr un pryd; | Ebrill 2015 | Wedi'i weithredu | Mae'r Bwrdd Iechyd wedi amlinellu'r tri math o wasanaeth nyrsio ardal mae'n ei ddarparu fel rhan o'i Fanyleb o Wasanaethau Nyrsio Cymunedol (2016). Mae'n cynnwys manylion lleoliad ac amlder y gwasanaethau a fydd yn cael eu darparu.<br>Mae'r fanyleb hefyd yn diffinio claf sy'n gaeth i'r tŷ fel 'unigolyn sydd methu â gadael ei gartref oherwydd salwch corfforol neu ffisiolegol'.<br>Aiff mlaen i ddweud nad yw unigolyn yn cael ei ystyried yn gaeth i'r tŷ os mae'n gallu gadael ei gartref gydag ychydig o gymorth, er y gallai sefyllfa godi pan fo angen i'r Nyrs Cymunedol ymweld â chlaf nad yw'n gaeth i'r tŷ. Bydd hyn yn seiliedig ar farn broffesiynol y nyrs ac anghenion unigol y claf. Mae hyn yn sefydlu elfen resymol o hyblygrwydd yn ymwneud â darparu gwasanaethau ar gyfer cleifion yn y cartref. |
| b. cytuno ar ba ofal neu wasanaethau a fydd neu na fydd yn cael eu darparu, megis casglu presgripsiynau; | Ebrill 2015 | Wedi'i weithredu a risg newydd wedi'i nodi i sicrhau bod manyleb y gwasanaeth yn parhau'n gyfredol. | Er bod manyleb y gwasanaeth yn amlinellu gwasanaethau nyrsio ardal ar gyfer cleifion, nid yw'n gwbl gyfredol. Mae staff yn cydnabod bod y gwasanaeth yn parhau i esblygu a bod angen adolygu gofynion y fanyleb yn rheolaidd. Awgrymwyd y gellid gwneud hyn yn flynyddol, gydag addasiadau dros dro lle bo angen.<br>Un newid sylweddol ers cyhoeddi'r fanyleb yw bod nyrsys ardal wedi cymryd cyfrifoldeb dros ddarparu triniaeth ar gyfer briwiau ar y coesau. Daeth meddygfeydd i benderfyniad ar y cyd i ddod â darpariaeth y gwasanaeth hwn i ben. Mae'r newid hwn |

| Argymhelliad | Dyddiad targed ar gyfer gweithredu | Statws | Crynodeb o’r cynnydd |
|---|---|---|---|
| | | | wedi effeithio’n sylweddol ar adnoddau’r gwasanaeth nyrsio ardal. Mae wedi gorfod dod o hyd i staff, cyfleusterau, offer a deunyddiau i allu darparu’r gwasanaeth, a hyd yma, nid yw wedi derbyn unrhyw adnoddau ychwanegol ar gyfer hynny. Er gwaetha’r pwysau y mae hyn wedi’i greu, mae gwelliannau sylweddol o ran deilliannau cleifion wedi cael eu nodi.<br>Mae taflen wybodaeth y gwasanaeth nyrsio ardal ar gyfer cleifion yn nodi mai nad cyfrifoldeb nyrsys ardal yw casglu na dosbarthu presgripsiynau.<br>Mae’r gwasanaeth nyrsio ardal yn gallu cael mynediad at system Sharepoint y Bwrdd Iechyd sy’n cofnodi cynnydd cleifion ar hyn y llwybrau triniaeth aciwt a rhyddhau. Mae hyn yn galluogi staff i ragweld gweithgaredd a chynllunio ymlaen llaw. |
| c. codi ymwybyddiaeth gyda chyfeirwyr posibl o’r hyn y gall y gwasanaeth nyrsio ardal ei gynnig; | Mawrth 2016 | Wedi’i weithredu ond risg newydd wedi’i nodi i sichrau bod darpariaeth y gwasanaeth yn parhau’n gyfredol | Mae manyleb y gwasanaeth yn amlinellu gwasanaethau unigol ac yn cynnwys protocol a siart llif ar gyfer cyfeirio.<br>Er bod copi o’r ddogfen gyfeirio wedi cael ei darparu ar ein cyfer, ni wnaethom ddod o hyd i gopi ar wefan allan y Bwrdd Iechyd, a allai gael ei ystyried yn arfer dda. |
| d. tynnu sylw at bwrpas y gwsanaeth nyrsio ardal gyda darpar ddefnyddwyr; ac | Mawrth 2016 | Wedi’i weithredu | Mae’r Bwrdd Iechyd wedi cynhyrchu taflen i gleifion ynglŷn â gwasanaethau nyrsio ardal sy’n nodi bod nyrs gymunedol yn ‘nyrs sy’n darparu asesiadau, gofal, cyngor, gwybodaeth a thriniaeth os nad ydych chi’n gallu ymweld â’ch meddyg teulu yn y feddygfa oherwydd eich bod yn gaeth i’r tŷ, boed hynny dros dro neu’n barhaus. Os nad ydych yn gaeth i’r tŷ, bydd disgwyl i chi fynychu Meddygfa’r Meddyg Teulu neu Glinig Iechyd lleol i gael triniaeth.’<br>Dywedodd y Bwrdd Iechyd wrthym ni fod y daflen wybodaeth i gleifion wedi cael ei rhannu’n eang ar draws y sefydliad a’i fod hefyd ar gael ar ei wefan allanol. Fodd bynnag, pan fuom yn chwilio amdani ar y wefan, nid oedd modd i ni ddod o hyd iddi. |

| Argymhelliad | Dyddiad targed ar gyfer gweithredu | Statws | Crynodeb o'r cynnydd |
|---|---|---|---|
| e. ystyried a oes cyfleoedd i integreiddio'r timoedd nyrsio cymunedol gwahanol yn un tîm | Mawrth 2016 | Wedi'i weithredu | Mae timoedd sirol yn gweithio ar sail ardal leol. Mae gan bob tîm ardal dîm nyrsio cymunedol craidd yn ogystal â nyrsys ardal gydag arbenigedd penodol e.e. eiddilwch, ac yn cynnal cyfarfod tîm amlddisgyblaethol yn rheolaidd. Mae darpariaeth gwasanaeth yn wahanol ym mhob un o'r tair sir, ac mae hynny'n broblem i'r Bwrdd Iechyd.<br>Mae gan y Bwrdd Iechyd nifer o dimoedd nyrsio ardal mewn ardaloedd llai er mwyn sicrhau ystod eang o brofiad i staff fel eu bod yn gallu bodloni gofynion eu cleifion, ac i wella trefniadau llywodraethu a rheoli'r gwasanaethau a ddarperir. Mae nyrsys clinigol arweiniol yn goruchwylio timoedd nyrsio ardal o fewn eu hardal benodol ac mae arweinwyr tîm nyrsio ardal yn gyfrifol am lwyth achosion cleifion.<br>Mae Tîm Ymateb Aciwt Sir Gaerfyrddin wedi cael ei gyfuno gyda'r tîm nyrsio ardal felly nid yw'n dîm unigol bellach. Mae aelodau'r tîm yn cynnal ymweliadau nyrsio ardal gyda chleifion os maen nhw yn yr ardal, sy'n arbed amser ac yn rhyddhau aelodau eraill o staff.<br>Yn Sir Benfro, cafodd nifer o dimoedd nyrsio cymunedol bychain eu rhannu a'u hail-ddosbarthu i dimoedd mwy er mwyn atgyfnerthu trefniadau rheoli. Maen nhw wedi lleihau 11 tîm i wyth, sydd wedi cynyddu effeithlonrwydd, helpu i egluro llwyth achosion, a hefyd wedi bod yn gyfle i dreialu gwahanol ffyrdd o weithio.<br>Yng Ngheredigion, cafwyd ymgais gydunol i edrych ar sut i ddarparu gwasanaethau nyrsio ardal yn fwy effeithlon. Hoffai'r Bwrdd Iechyd ddatblygu tîm adnoddau cymunedol yng Ngogledd Ceredigion i adlewyrchu darpariaeth bresennol yn Ne'r sir. Mae'r Bwrdd Iechyd yn y broses o recriwtio ar gyfer datblygu tîm adnoddau cymunedol yng ngogledd Ceredigion i adlewyrchu darpariaeth bresennol yn ne'r Sir. Mae'r tîm ymateb aciwt wedi cael ei gyfuno â'r gwasanaeth nyrsio ardal graidd yng Ngheredigion i wella sgiliau a chymhwysedd.<br>Cafwyd buddsoddiad sylweddol mewn timoedd nyrsio arbenigol yn gyffredinol yng Ngheredigion ac mae'r Sir yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr gofal cymdeithasol a |

| Argymhelliad | Dyddiad targed ar gyfer gweithredu | Statws | Crynodeb o'r cynnydd |
|---|---|---|---|
| | | | darparwyr trydydd sector, sydd wedi galluogi buddsoddi a gweithio ar y cyd i wella darpariaeth gwasanaeth.<br>Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i chwilio am gyfleoedd i wella ei drefniadau timoedd nyrsio ardal. |
| **Adnoddau i fodloni galw** | | | |
| A2 Mae llwyth achosion nyrsio ardal yn ymestyn i gynnwys cleifion newydd ac mae posibilrwydd i nifer yr ymweliadau fod yn ddiderfyn. Dylai'r Bwrdd Iechyd, yn gweithio gyda'r timoedd nyrsio ardal: | | | |
| a. gytuno ar drothwy pryd y gellir cau'r llwyth achosion i gyfeiriadau newydd; | Mawrth 2016 | Wedi'i weithredu | Mae trothwy wedi cael ei gytuno ac mae adnodd bwrdd iechyd a phroses adolygu llwyth achosion wedi cael eu gweithredu. Yn ystod cyfnod ein gwaith ymchwil, roedd adolygiad cymheiriaid ffurfiol o lwyth achosion wedi'i gynllunio i gymryd lle yn ystod 2018.<br>Mae gwaith yn cael ei wneud ar hyn o bryd ar draws Cymru i ddatblygu adnoddau cenedlaethol i asesu llwyth achosion ac aciwtedd, ac i ddarparu gwybodaeth ar gyfer gosod trothwy, ond ni ddisgwylir i'r gwaith gael ei gwblhau'n llawn tan 2020. Mae cynrychiolaeth nyrsio cymunedol ar lefel uwch gan y Bwrdd Iechyd ar y grŵp gweithio cenedlaethol. Mae elfen ansawdd yr adnodd Cymru gyfan yn ymwneud ag asesu llwyth achosion a chynllunio gofal wedi cael ei brofi yng Ngheredigion. Roedd y canlyniadau'n cael eu dadansoddi ar adeg yr adolygiad hwn. |
| b. datblygu gweithdrefnau uwchgyfeirio pan fo'r trothwy yn debyg o gael ei groesi; ac | Mawrth 2016 | Wedi'i weithredu | Cafodd gweithrefn uwchgyfeirio ei gytuno fel rhan o Fanyleb Gwasanaeth y Bwrdd Iechyd ar gyfer Gwasanaethau Nyrsio Cymunedol (2016). Cafodd Polisi Uwchgyfeirio Nyrsio Cymunedol fwy manwl ei gymeradwyo gan yr Is-Bwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad y Claf, Gofal Cymunedol a Sylfaenol ym mis Ionawr 2018. Mae'n cyflwyno blaenoriaethau sy'n gysylltiedig â manyleb y gwasanaeth a'r ffurflen gyfeirio. Mae'n cynnwys dangosydd statws RAG (coch, melyn, gwyrdd) ynghyd ag eglurhad o'r hyn mae'n ei olygu o ran capasiti'r gwasanaeth i dderbyn cleifion. |

| Argymhelliad | Dyddiad targed ar gyfer gweithredu | Statws | Crynodeb o'r cynnydd |
| --- | --- | --- | --- |
| | | | Mae staff nyrsio cymunedol yn disgwyl i weithrediad y polisi hwn helpu i godi ymwybyddiaeth o lefel gweithgaredd y gwasanaeth, ac yn cyd-fynd â'r wybodaeth a ddarperir o ganlyniad i'r polisi uwchgyfeirio gwasanaethau aciwt. |
| c. ystyried a oes angen y gofal a roddir i'r cleifion a welir yn anfynych neu a ellir gollwng y cleifion hyn yn ddiogel o'r llwyth achosion neu a all eu gofal gael ei roi gan weithwyr proffesiynol eraill. | Medi 2015 | Wedi'i weithredu | Mae adnodd adolygu llwyth achosion y Bwrdd Iechyd (gweler A2(a)) yn archwilio a yw'r gofal y mae'n ei ddarparu i gleifion a welir yn anfynych (y rhai nad ydynt yn cael eu gweld o fewn wyth wythnos) yn angenrheidiol mewn gwirionedd. Mae'r adnodd yn cael ei ddefnyddio ym mhob un o'r tair sir i alluogi monitro parhaus.<br>Ar adeg cwblhau'r gwaith, roedd timoedd Sir Gaerfyrddin yn cynnal archwiliad o gleifion a welir yn anfynych. |
| A3 Nid yw pob un o'r cyfeiriadau i'r gwasanaeth nyrsio ardal yn briodol ac weithiau mae ansawdd yr wybodaeth gyfeirio wan. Dylai'r Bwrdd Iechyd: | | | |
| a. ddefnyddio'r hyn a ddysgwyd o'r system beilot i frysbennu (triage) cyfeiriadau yn Llanelli i ddiweddaru ei feini prawf cyfeirio; | Mehefin 2015 | Wedi'i weithredu | Mae'r hyn a ddysgwyd o gynllun peilot Pwynt Mynediad Unigol Llanelli wedi cael ei rannu gyda chyfeirwyr lleol ac wedi cael ei ddefnyddio fel sylfaen ar gyfer y meini prawf cyfeirio sy'n cael eu cynnwys ym manyleb y gwasanaeth. |
| b. cyfleu'r meini prawf cyfeirio a ddiweddarwyd wrth gyfeirwyr posibl; | Mehefin 2015 | Wedi'i weithredu | Gweler crynodeb o'r sylwadau ar gyfer A1(c) |

| Argymhelliad | Dyddiad targed ar gyfer gweithredu | Statws | Crynodeb o’r cynnydd |
|---|---|---|---|
| c. datblygu rhestr wirio eglur o’r wybodaeth sydd ei hangen gan y rhai sy’n cyfeirio; | Mehefin 2015 | Wedi’i weithredu | Fe wnaethom ni adolygu copi o’r ffurflen gyfeirio gynhwysfawr ar gyfer Gwasanaeth Nyrsio Cymunedol/Nyrsio Ardal Sir Benfro.<br>Roedd staff yn cydnabod y byddai angen i’r ffurflen gyfeirio gael ei diweddaru er mwyn adlewyrchu newidiadau i’r gwasanaeth yn y dyfodol, er mwyn parhau i fod yn ddefnyddiol. |
| d. ystyried yn rheolaidd a ydynt yn cydymffurfio â’r meini prawf a’r rhestr wirio gwybodaeth ac yn targedu’r rheiny sy’n cyfeirio’n amhriodol neu’n rhoi gwybodaeth wael; ac | Rhagfyr 2015 | Ar waith | Fe wnaethom adolygu ffurflen gloi newydd ar gyfer achosion a adroddir yn DATIX, a fyddai’n cynnwys materion yn codi o gyfeiriadau anaddas. Byddai achosion o’r fath yn cael eu trafod mewn cyfarfodydd llywodraethu staff yn rheolaidd ac yn cael eu trafod ymhellach lle bo angen.<br>Roedd staff yn cydnabod nad oedd unrhyw weithgaredd archwilio penodol ar hyn o bryd o ran cyfeiriadau anaddas, i edrych ar batrymau cyfeiriadau anaddas a darparu gwybodaeth o ansawdd isel. |
| e. os yw’r system brysbennu cyfeiriadau sy’n cael ei threialu yn Llanelli yn llwyddiannus, ystyried a ellir ei hatgynhyrchu mewn llefydd eraill | Mai 2015 | Wedi’i weithredu | Mae’r Bwrdd Iechyd yn bwriadu cyflwyno trefniadau pwynt mynediad unigol ym mhob un o’r tair sir, er nad oes amserlen glir ar gyfer hyn hyd yma. Mae’r adolygiad o’r hyn a ddysgwyd o gynllun peilot pwynt mynediad unigol yn Llanelli wedi dod i’r casgliad bod manteision ar gyfer cyfeirwyr, cleifion, y Tîm Ail-alluogi Cymunedol a’r gwasanaeth nyrsio cymunedol i’r math yma o ddull. Er enghraifft, gwelwyd cynnydd yn y nifer o gysylltiadau wyneb i wyneb, roedd ansawdd y cyfeiriadau’n well ac roedd gwell defnydd yn cael ei wneud o’r adnoddau. Roedd hefyd yn gwneud nifer o argymhellion ymarferol i gynorthwyo i arwain unrhyw weithrediad pellach o’r dull hwn. Y bwriad ar hyn o bryd yw y bydd pwynt cyswllt unigol yn cael ei gyflwyno ar draws Sir Gâr lle mae systemau TG a systemau ffôn yn gallu ei gefnogi, ond nid yw’r amserlen ar gyfer hyn yn eglur.<br>Mae Porth Gofal Ceredigion yn gynllun Pwynt Mynediad Unigol sy’n cael ei redeg ar y cyd gyda’r gwasanaethau cymdeithasol. Mae’n cael ei staffio gan nyrs, cynrychiolydd o’r staff therapi, a gweithiwr cymdeithasol. Maen nhw’n blaenbennu cyfeiriadau ac yn eu cyfeirio at y man iawn i dderbyn y gofal cywir. Mae hyn yn cynnwys rhai |

| Argymhelliad | Dyddiad targed ar gyfer gweithredu | Statws | Crynodeb o’r cynnydd |
|---|---|---|---|
| | | | gwasanaethau trydydd sector. Mae’r Bwrdd Iechyd yn gweithio gyda’r gwasanaethau cymdeithasol i werthuso’r gwasanaethau. Maen nhw’n cydnabod bod angen gwell dulliau o gyfeirio, er bod y gwasanaeth yn gam i’r cyfeiriad cywir.<br>Nid oes trefniant pwynt mynediad unigol yn Sir Benfro. |
| **Defnydd effeithiol** | | | |
| A4 Roedd gwahaniaethau mawr yn y ffordd y mae staff nyrsio ardal yn treulio’u diwrnod gwaith. Er mwyn helpu i ddefnyddio’i adnodd nyrsio ardal yn effeithiol, mae angen i’r Bwrdd Iechyd: | | | |
| a. fonitro’r cymysgedd graddfeydd drwy gymharu’r gwaith a wneir â’r gweithgareddau a ddisgwylir gan raddfa’r nyrs honno; | Mawrth 2016 | Wedi’i weithredu | Mae adolygiad o gymysgedd graddfeydd o fewn timoedd wedi cael ei gwblhau yn unol â gwaith Egwyddorion Staffio Nyrsio Ardal ynglŷn â sicrhau cymysgedd sgiliau addas o fewn timoedd.<br>Gellir gweld tystiolaeth o weithgareddau a ddisgwylir gan nyrsys ar wahanol raddfeydd yn Llyfryn Datblygu Cymhwysedd Band 5 a ddatblygwyd o fewn Hywel Dda a’i gyflwyno ar draws y tair sir gan gydnabod bod gwaith yn parhau i ddatblygu adnodd cynllunio’r gweithlu yn seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer Nyrsio Ardal. Mae’r Bwrdd Iechyd yn cael ei gynrychioli yn y cyfarfodydd cenedlaethol hyn, a disgwylir i’r adnodd fod ar gael i’w gyflwyno yn 2020. Bydd yn cael ei fonitro wedi hynny drwy’r broses Gwerthuso Perfformiad ac Adolygu Datblygiad.<br>Mae timoedd nyrsio ardal ar draws y tair sir wedi dechrau monitro llwyth achosion gan ddefnyddio dull sy’n seiliedig ar unedau amser. Bydd hyn yn canfod faint o weithgaredd clinigol sy’n digwydd a sut mae’n amrywio ar draws timoedd ac ar draws siroedd. Bydd y data a gynhyrchir yn cynorthwyo i bennu staffio priodol, ac o bosibl yn cefnogi achosion busnes yn y dyfodol ar gyfer newid trefniadau gwasanaeth ac adnoddau. Mae’r dull yn gweithio’n dda ac mae staff yn gobeithio y bydd yn parhau i gael ei ddefnyddio, nes bydd dull cenedlaethol yn cael ei weithredu.<br>Mae’r Prif Swyddog Nyrsio a’r Cyfarwyddwyr Nyrsio wedi gwneud cais i set o egwyddorion staffio arweiniol gael eu datblygu dros dro. Mae’r egwyddorion wedi cael |

| Argymhelliad | Dyddiad targed ar gyfer gweithredu | Statws | Crynodeb o'r cynnydd |
|---|---|---|---|
| | | | eu cyhoeddi ac mae gwaith wedi'i gynllunio i sicrhau bod y Bwrdd Iechyd yn cydfynd â nhw.<br>Pan fo swyddi gwag yn codi, mae'r Bwrdd Iechyd wedi archwilio pa wasanaeth sydd ei angen a'r trefniadau staffio angenrheidiol i'w ddarparu. Er enghraifft, arweiniodd swydd wag ar Fand 7 mewn un ardal at ail-strwythuro'r tîm. Yn y gorffennol, bu dau nyrs Band 7 yn rheoli'r llwyth gwaith, ond erbyn hyn, ceir nyrs ardal Band 6 a Band 7 i ymdrin â'r llwyth gwaith. Mae eu cyfrifoldebau wedi cael eu llunio i gydweddu â'i gilydd. |
| b. archwilio'r amrywiadau mewn gweithgareddau heb fod gyda'r claf ac ystyried a oes cyfleoedd i ryddhau amser ar gyfer gofal uniongyrchol i'r claf; | Mawrth 2016 | Wedi'i weithredu | Mae canllawiau staffio interim cenedlaethol yn amlinellu disgwyliadau ynglŷn â faint o amser y dylid ei dreulio ar ofal heb fod gyda'r claf. Mae'r Gwasanaeth Nyrsio Cymunedol wedi edrych ar yr amrywiaeth o ran gweithgaredd heb fod gyda'r claf drwy gynnal archwiliad pwn-golau[1] sy'n cynnwys adolygiad o faint o amser sy'n cael ei dreulio ar ofal heb fod gyda'r claf yn unol â'r canllawiau staffio interim cenedlaethol.<br>Mae Paneli Swyddi Gwag wedi cael eu sefydlu i edrych ar gyfleoedd er mwyn mynd i'r afael â phroblemau gyda chymysgedd sgiliau. |
| c. cytuno ar drothwy priodol i fonitro'r amser a dreulir ar ofal uniongyrchol i'r claf yn ei erbyn; | Mawrth 2016 | Wedi'i weithredu | Mae'r dull Unedau Amser wedi cael ei fabwysiadu ar draws y tair sir gyda ffiniau cytûn ar gyfer gweithgaredd clinigol ac anghlinigol i fodloni gofynion y claf ar wahanol adegau o'r dydd a'r wythnos.<br>Dywedodd y Bwrdd Iechyd ei fod yn disgwyl i'r mater hwn gael sylw llawn drwy gyhoeddiad yr adnodd aciwtedd Cymru Gyfan, a ddisgwylir ar hyn o bryd yn 2020. |

[1] Mae archwiliad pen-golau yn defnyddio teclyn electronig a ellir ei ddefnyddio i sganio codau ar restr ar ddarn o bapur. Yn yr achos hwn, cafodd ei ddefnyddio i sganio codau'n ymwneud â gweithgareddau penodol o fewn nyrsio ardal. Mae hyn yn cynnig ffordd rwydd o gasglu data a ellir ei ddadansoddi wedi hynny.

| Argymhelliad | Dyddiad targed ar gyfer gweithredu | Statws | Crynodeb o’r cynnydd |
|---|---|---|---|
| d. adolygu’r cymysgedd staff a ddefnyddir yn erbyn anghenion cleifion ar wahanol adegau o’r wythnos; | Mawrth 2016 | Wedi’i weithredu | Gweler crynodeb o’r sylwadau ar gyfer A4(c)<br>Mae staff yn derbyn gwybodaeth o’r canllawiau interim cenedlaethol er mwyn gwneud penderfyniadau ynglŷn â chymysgedd sgiliau drwy’r wythnos.<br>Bydd cyflwyno’r system CONNIS ar draws y gwasanaeth nyrsio ardal yn anelu at ddarparu safle dyddiol ar gyfer gweithgaredd o fewn y gwasanaeth, ac felly i gynorthwyo i roi ffocws i weithgareddau cynllunio adnoddau staff. |
| e. archwilio gwir hyd a lled gweithio y tu hwnt i oriau arferol; ac | Mehefin 2015 | Wedi’i weithredu | Mae’r Bwrdd Iechyd wedi cynnal archwiliad ciplun gan ddefnyddio’r daenlen Matrics Gweithlu Nyrsys Ardal.<br>Mae arweinwyr tîm yn monitro gweithio y tu hwnt i oriau arferol yn rheolaidd.<br>Bydd trefniant e-amserlennu yn cael ei gyflwyno ym mhob un o’r siroedd, a fydd yn casglu manylion ynglŷn ag oriau gweithio tu hwnt i oriau arferol ac adolygiadau o gymysgedd sgiliau. |
| f. archwilio’r gwasanaethau rhwng y siroedd o ran y mathau o ymyriadau gofal, fel tynnu gwaed, i benderfynu a ellid defnyddio’r adnoddau presennol yn wahanol. | Mehefin 2015 | Wedi’i weithredu | Mae’r Gwasanaethau Nyrsio Cymunedol wedi edrych ar yr amrywiaeth mewn gweithgaredd nad yw’n ymwneud â chleifion. Mae Paneli Swyddi Gwag wedi cael eu sefydlu i edrych ar gyfleoedd er mwyn mynd i’r afael â phroblemau gyda chymysgedd sgiliau.<br>Mae cyflwyno manyleb gwasanaethau yn helpu i sicrhau cysondeb yn narpariaeth y gwasanaeth ar draws y tair sir. |
| A5 Roedd gwahaniaethau mawr yn y ffordd yr oedd arweinwyr tîm yn treulio’u hamser. Dylai’r Bwrdd Iechyd gytuno ar fecanweithiau i ganiatáu amser a ddiogelir i arweinwyr | Mehefin 2015 | Wedi’i weithredu | Tra bod gwaith cenedlaethol yn cael ei wneud gyda chynrychiolaeth gan y Bwrdd Iechyd, mae egwyddorion staffio nyrsio ardal wedi cael eu cytuno. Yn dilyn y gwaith hwn, daethpwyd i gytundeb ar nifer yr arweinyddion tîm angenrheidiol yn ogystal â chyfanswm yr amser wedi’i ddiogelu ar gyfer tasgau heb fod yn glinigol a rheolaethol. Mae Timoedd Nyrsio Ardal wedi cael eu cydweddu i sicrhau bod cymysgedd sgiliau ac arweinyddiaeth briodol ar gael i gefnogi timoedd i fodloni gofynion y llwyth achosion. I |

| Argymhelliad | Dyddiad targed ar gyfer gweithredu | Statws | Crynodeb o'r cynnydd |
|---|---|---|---|
| tîm i ffwrdd o'u dyletswyddau gweithredol fel eu bod yn gallu rheoli llwyth achosion, goruchwylio a chefnogi staff, ac arwain eu timoedd. | | | gefnogi hyn, mae'r Polisi Uwchgyfeirio Cymunedol wedi cael ei ddatblygu, yn ddibynnol ar gapasiti. |
| **Cydweddu adnoddau â'r llwyth achosion** | | | |
| A6 Mae llwyth gwaith yn amrywio rhwng timoedd. Dylai'r Bwrdd Iechyd ddefnyddio offeryn dibyniaeth Cymru gyfan pan fydd ar gael i fonitro ac adolygu'r cymysgedd achosion rhwng y timoedd o'i gymharu ag adnoddau'r tîm. | Mawrth 2016 | Ar waith - Mae'r Bwrdd Iechyd yn ddibynnol ar gwblhau gwaith cenedlaethol. | Dywedodd y Bwrdd Iechyd ei fod yn disgwyl i'r mater hwn gael sylw llawn gyda chyhoeddiad yr adnodd dibyniaeth Cymru Gyfan, a ddisgwylir ar hyn o bryd yn 2020. |
| **Monitro a gwella gwasanaethau** | | | |
| A7 Ar hyn o bryd cyfyng yw'r wybodaeth am ansawdd a diogelwch a pherfformiad cyffredinol y gwasanaeth nyrsio ardal. Dylai'r Bwrdd Iechyd: | | | |
| a. symud ymlaen yn gyflym gyda'i waith o gytuno ar fesurau perfformiad, yn cynnwys gwybodaeth am ansawdd a diogelwch y gwasanaethau, megis cydymffurfio ag arfarniadau a hyfforddiant statudol a gorfodol, | Rhagfyr 2015 | Wedi'i weithredu | Mae adolygiadau perfformiad ar gyfer pob sir yn cael eu cwblhau'n lleol o fewn y sir yn fisol yn ogystal â gyda Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr Nyrsio bob deufis.<br>Mae gwasanaethau nyrsio cymunedol yn cynnal adroddiadau perfformiad lleol yn fisol, a bob deufis i'r Dirprwy Brif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Nyrsio. Mae'r adolygiadau hyn yn archwilio:<br>• ansawdd a diogelwch y gwasanaeth<br>• cydymffurfiaeth gyda PADR<br>• cydymffurfiaeth gyda hyfforddiant gorfodol |

| Argymhelliad | Dyddiad targed ar gyfer gweithredu | Statws | Crynodeb o'r cynnydd |
|---|---|---|---|
| profiad y defnyddiwr gwasanaeth, deilliannau'r claf, costau'r gwasanaeth a chyfraniad nyrsio ardal at symud gofal o leoliadau acíwt i rai cymunedol; a | | | • profiad cleifion a chwynion<br>• Archwiliad Monitro Safonau Gofal Iechyd Blynyddol (deilliannau cleifion)<br>• rheolaeth ariannol<br>• datblygu gwasanaethau newydd, e.e. Clinigau Clwyfau ar y coesau<br>• monitro salwch ac absenoldeb<br>• monitro swyddi gwag<br>Mae'r tair sir wedi datblygu dogfennaeth safonol sy'n seiliedig ar y dull a ddefnyddir gan Ymddiriedolaeth Iechyd Powys. Heblaw am ambell i anghysondeb sy'n dal heb gael sylw, bydd y gwaith papur nyrsio ardal yn gyson ar draws y Bwrdd Iechyd. Bydd hyn yn cynorthwyo i fynd i'r afael â materion llywodraethiant a ganfuwyd yn y gorffennol yn deillio o waith papur anghyson.<br>Mae'r gwasanaeth wedi sefydlu cyfarfodydd craffu sy'n archwilio cofnodion achosion DATIX. Dywedodd rheolwyr bod mwy o sicrwydd erbyn hyn a bod timoedd yn ymwneud â sicrhau bod gwers a ddysgwyd yn cael eu hymgorffori mewn agweddau ymarferol.<br>Mae nyrsys arweiniol clinigol yn cynnal archwiliadau ar hap o dimoedd, drwy edrych ar agweddau cadw cofnodion, mynd gyda nyrsys ar ymweliadau cartref, ac yn y blaen.<br>Mae'r Bwrdd Iechyd yn rhagweithiol wrth ofyn am adborth gan ddefnyddwyr y gwasanaeth nyrsio ardal i helpu monitro a gwella eu perfformiad. Mae hefyd yn bwriadu darparu holiaduron gwerthuso drwy gydol y flwyddyn i gleifion wrth iddynt gael eu rhyddhau o'r gwasanaeth. |
| b. datblygu dull cynhwysfawr o adrodd am y mesurau hyn i'r Bwrdd o leiaf unwaith y flwyddyn. | Gorffennaf 2015 | Ar waith | Gweler crynodeb o'r sylwadau ar gyfer A7(a)<br>Mae pob sir yn darparu adroddiad bob deufis ar wahân at sylw'r Bwrdd. Fodd bynnag, y bwriad yw darparu adroddiad blynyddol ar gyfer Gwasanaeth Nyrsio Cymunedol y Bwrdd Iechyd yn ei gyfanrwydd ar gyfer 2017-18. |

| Argymhelliad | Dyddiad targed ar gyfer gweithredu | Statws | Crynodeb o'r cynnydd |
|---|---|---|---|
| | | | Dywedodd y Bwrdd Iechyd wrthym ni, o ystyried y gwahaniaethau rhwng siroedd, byddai wedi bod yn rhy gynnar i gynhyrchu adroddiad unigol cyn hynny. Ynghyd â chyflwyno'r polisi uwchgyfeirio a gweithio'n agos gyda'r Cyfarwyddwr Nyrsio newydd, mae staff yn gobeithio y bydd hyn yn helpu i godi proffil y gwasanaeth. |
| A8 Mae cydymffurfiaeth â'r broses arfarnu ac adolygu'r cynllun datblygu personol yn wan ynghyd â chydymffurfiaeth â hyfforddiant statudol a gorfodol ac mae systemau corfforaethol i fonitro cydymffurfiaeth yn annigonol. Dylai'r Bwrdd Iechyd: | | | |
| a. weithio gyda rheolwyr lleol i adnabod a chofnodi'n gyson yr hyfforddiant statudol a gorfodol sydd ar bob aelod o staff eu hangen a pha mor aml y mae angen hyn fel y gellir cyfrifo cyfraddau cydymffurfiaeth yn gywir; a | Gorffennaf 2015 | Wedi'i weithredu | Yn dilyn ein hadolygiad gwreiddiol, datblygodd y Bwrdd Iechyd raglen i ddarparu cydymffurfiaeth gyda gofynion PADR, fframwaith sgiliau a dilysu.<br>Dywedodd y Bwrdd Iechyd wrthym ni er bod problemau parhaus wedi bod o ran sichrau bod adroddiadau o'r system Cofnod Staff Electronig (ESR) yn adlewyrchu sefyllfa gyfredol, mae'r sefyllfa wedi gwella.<br>Mae gwaith hefyd yn cael ei wneud i sicrhau bod pob adroddiad ar wasanaethau nyrsio cymunedol yn hygyrch ar ESR. |
| b. chytuno ar fformat cyson i gasglu data yn lleol ar gydymffurfiaeth a'r mecanwaith i fwydo hwn i mewn yn ganolog | Rhagfyr 2016 | Wedi'i weithredu | Gweler sylwadau A8(a)<br>Mae rhai taenlenni lleol yn dal i gael eu defnyddio ochr yn ochr â data a gofnodir ar y system ESR. Dywedodd rheolwyr bod hyn yn rhoi mwy o hyder fyth iddynt ynglŷn â'r sefyllfa mewn perthynas â'r broses Gwerthuso Perfformiad ac Adolygu Datblygiad ac i hyfforddiant gorfodol. |

# Atodiad 2

## Ymateb rheolwyr y Bwrdd Iechyd i argymhellion newydd yn ymwneud â nyrsio ardal.

Bydd ymateb rheolwyr y Bwrdd Iechyd yn cael ei fewnosod unwaith y bydd y templed ymateb wedi cael ei gwblhau. Bydd yr atodiad yn rhan o'r adroddiad terfynol a fydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru unwaith y bydd yr adroddiad wedi cael ei ystyried gan y bwrdd neu bwyllgor bwrdd perthnasol.

Arddangosyn 5: ymateb rheolwyr

| Cyf | Argymhelliad | Canlyniad/budd a fwriadwyd | Blaenoriaeth uchel (ydy/nac ydy) | Derbyniwyd (do/naddo) | Ymateb rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Person sy'n gyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A9 | Sicrhau bod y fanyleb ar gyfer gwasanaethau nyrsio ardal yn cael ei diweddaru'n ffurfiol o leiaf unwaith y flwyddyn, a bod unrhyw newidiadau i'r meini prawf atgyfeirio yn cael eu hadlewyrchu mewn | Mae cyfeirwyr yn glir ynglŷn â chylch gwaith y gwasanaeth nyrsio ardal i leihau'r effaith negyddol ar adnoddau o ganlyniad i gyfeiriadau anaddas a llwyth gwaith a fyddai'n gallu cael ei | Nac ydy | Do | Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn cydnabod bod angen i'r Fanyleb Gwasanaethau Nyrsio Cymunedol gael ei hadolygu a'i diweddaru'n rheolaidd er mwyn sichrau bod dealltwriaeth glir o rôl a chylch gwaith y gwasanaethau nyrsio ardal. Mae fersiynau o'r fanyleb gwasanaeth bresennol wedi'u rheoli a cheir cytundeb y bydd hyn yn cael ei adolygu bob dwy flynedd. Y dyddiad arolygu nesaf fydd mis Medi 2018 a bydd unrhyw addasiadau i fanyleb y gwasanaeth yn cael eu rhannu a'u | Ionawr 2018 | Penaethiaid Nyrsio Cymunedol a Gofal Cynradd (Ceri Griffiths Sarah Cameron Tracey Evans |

| Cyf | Argymhelliad | Canlyniad/budd a fwriadwyd | Blaenoriaeth uchel (ydy/nac ydy) | Derbyniwyd (do/naddo) | Ymateb rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Person sy’n gyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | diweddariadau i’r ffurflen gyfeirio. | gyflawni’n fwy effeithiol yn rhywle arall. | | | diweddaru ar Daflenni Gwybodaeth i Gleifion a Ffurflenni Cyfeirio ar yr un pryd. | | |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru